

- **Beth yw Côr ar y Bryn?**

Mae Côr ar y Bryn yn gôr newydd i'r cantorion gorau o ddinas Bangor ac o ardal gogledd orllewin Cymru. Mae'n adeiladu ar lwyddiant Corws Prifysgol Bangor dros flynyddoedd maith.

- **Beth rydym yn ei ganu?**

Bob blwyddyn, bydd y côr yn perfformio ystod eang o gerddoriaeth glasurol, gan arwain at berfformiad mawr gyda Cherddorfa Symffoni'r Brifysgol a chôr newydd y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr a staff, y Corws Symffoni. Eleni, byddwn yn perfformio *Passion St Matthew* gan Bach ar 4 Mai yn Neuadd Prichard-Jones. Mae'r ymarferion o ddifrif ond yn bleserus, ac rydym bob amser yn cael seibiant am baned hanner ffordd drwy'r ymarfer. Weithiau bydd y ddau gôr yn uno i wneud dwywaith fwy o sŵn!

- **Sut gallaf ymuno â'r Côr?**

Nid oes unrhyw glyweliadau i ymuno â'r Côr ar y Bryn. Y cyfan sydd ei angen arnoch yw gallu sylfaenol i ddarllen cerddoriaeth brintiedig, a chariad at ganu.

- **Pwy all ymuno â'r Côr?**

Mae'r aelodaeth yn agored i bawb. Mae ffi aelodaeth o £50 y flwyddyn, sydd yn cynnwys y costau i gyd, gan gynnwys benthyg sgorau. Mae'r ffi yn daladwy ym mis Tachwedd. Cyn hynny, mae croeso mawr i ddarpar aelodau ymuno â ni yn rhad ac am ddim i roi cynnig arni.

- **Beth sydd wedi digwydd i Gorws y Brifysgol?**

Ers ail-lansiad diwethaf Corws y Brifysgol yn 2003, mae'r Ysgol Cerddoriaeth wedi cael llwyddiant mawr wrth ddod â'r cymunedau prifysgol a lleol at ei gilydd i berfformio cerddoriaeth o safon uchel iawn. Er hynny, rydym wedi wynebu nifer o heriau, gan gynnwys cwmp yn y nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan. Felly, rydym wedi penderfynu rhoi bywyd newydd yn ein gweithgareddau corawl, trwy gynnal ymarferion i dri chôr cyfochrog (Côr ar y Bryn, Corws Symffoni newydd i fyfyrwyr, a Chôr Siambr y Brifysgol) ar yr un noswaith. Bydd gan y tri chôr fwy o gyfleoedd perfformio, a byddant yn gallu cyfuno ar gyfer digwyddiadau mawr, megis y cyngerdd blynyddol ym mis Mai gyda Cherddorfa Symffoni'r Brifysgol. Mae'r ffi aelodaeth yn cyfrannu at logi cyfeilyddion a chorws-feistri, ond mae Prifysgol Bangor yn parhau i noddi'r côr.

- **Pryd a ble rydym yn ymarfer?**

**Rydym yn ymarfer bob nos Fercher yn ystod tymor y Brifysgol, rhwng 7.30pm a 9.30pm, yn adeilad Cerdd y Brifysgol ar Ffordd y Coleg.** Mae'r adeilad yn gwbl hygyrch, ac mae parcio am ddim ar gael ochr yn ochr â phrif faes parcio'r Brifysgol.

- **Pryd y byddwn yn dechrau?**

Cynhelir ein hymarfer cyntaf nos **Fercher 10 Hydref**, ac yna **parti caws a gwin am ddim** wedyn. Gobeithiwn eich gweld yno!

## DEFNYDDIO EICH DATA

- Bydd y data a gesglir ar y ffurflen aelodaeth yn cael ei storio'n ddiogel, mewn copi caled yn unig, yn yr Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor, Bangor, LL57 2DG.
- Pan ymunwch â'r côr, bydd eich cyfeiriad e-bost yn cael ei ychwanegu at restr bostio electronig, a byddwch yn derbyn gohebiaeth am y côr (amserlenni ymarfer, dyrannu rhannau, cyfleoedd i gael perfformiadau ychwanegol, ac ati). Bydd negeseuon e-bost yn cael eu hanfon mewn ffordd fel nad yw cyfeiriadau e-bost aelodau yn weladwy i dderbynwyr eraill. Ni fydd y rhestr e-bost yn cael ei defnyddio at unrhyw ddiben arall.
- Os ydych chi'n fyfyrwr ym Mhrifysgol Bangor, efallai y byddwn yn cysylltu â chi gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost prifysgol, yn ogystal ag unrhyw gyfeiriad e-bost preifat a gofnodwyd ar y ffurflen aelodaeth.
- Efallai y byddwn hefyd yn cysylltu â chi'n unigol ynglŷn â materion sy'n gysylltiedig â'ch aelodaeth neu'ch cyfranogiad yn y côr. Bydd yr ohebiaeth hon trwy e-bost yn y lle cyntaf. Ni fyddwn yn cysylltu â chi dros y ffôn neu drwy'r post, dim ond os byddwn wedi methu cysylltu â chi trwy e-bost.
- Caiff y ffurflen aelodaeth ei dinistrio ar 30 Medi 2020 neu cyn hynny.
- Ni chaiff y manylion ar y ffurflen aelodaeth eu rhannu gydag unrhyw ran arall o'r Brifysgol, na gydag unrhyw drydydd parti.
- Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â defnyddio'r data hwn, cysylltwch â'r Athro Chris Collins trwy un o'r dulliau canlynol:  
Post: Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor, Bangor, LL57 2DG  
E-bost: [c.collins@bangor.ac.uk](mailto:c.collins@bangor.ac.uk)  
Ffôn: 01248 382181

## Ffurflen aelodaeth

**Dychweler y ffurflen i:** Côr ar y Bryn, Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG. Fel arall, gallwch ddod â'r ffurflen hon i un o'n hymarferion arferol ar nosweithiau Mercher.

**Enw:** .....

**Cyfeiriad:** .....

.....

**Rhif ffôn:** .....

**Cyfeiriad e-bost:** .....

**Math o lais:**

Soprano

Alto

Tenor

Bas

Ddim yn siŵr

**PWYSIG:** Cytunaf i ddychwelyd y sgorau a fenthycwyd imi yn syth ar ôl pob cyngerdd. Os nad wyf wedi eu dychwelyd o fewn 7 diwrnod ar ôl y cyngerdd, cytunaf i dalu cost cael rhai yn eu lle.

**Llofnodwyd:** .....

**Mae'r ffi aelodaeth yn £50 y flwyddyn. Mae'r ffi yn daladwy ym mis Tachwedd. Cyn hynny, mae croeso mawr i ddarpar aelodau ymuno â ni yn rhad ac am ddim i roi cynnig arni, ond rhaid iddynt lenwi'r ffurflen hon yn cyntaf.**

